# ***Mae Hijinx yn chwilio am hwyluswyr llawrydd i gefnogi cyflwyno eu hyfforddiant cynhwysiant newydd ar gyfer sector y sgrin – ReFocus.***

Hijinx yw un o gwmnïau cynhwysol mwyaf blaengar Ewrop, sy'n creu celfyddyd eithriadol gydag actorion ag anabledd dysgu a/neu awtistig ar y llwyfan a'r sgrin, i Gymru a'r byd. Canolbwynt ein gwaith yw ein hartistiaid ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth, sydd yn herio'r amgyffrediad o'r hyn y gall theatr a ffilm fod a sut y dylent gael eu gwneud yn gyson.

***Rydym yn eich gwahodd i anfon mynegiant o ddiddordeb i ymuno â ni fel hwylusydd ar ein prosiect, ReFocus.***

Rhaglen hyfforddi trwy brofiad yw ReFocus sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu a dealltwriaeth. Mae'n cael ei darparu trwy sesiynau fforwm theatr a hyfforddiant chwarae rhan benodol, gan ddefnyddio sefyllfaoedd ar gyfer pob maes ac adran sy'n rhan o wneud ffilm a theledu. Derbyniodd y prosiect gyllid a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru trwy Cymru Greadigol.

Bydd sesiynau ReFocus yn cael eu rhedeg gan hwyluswyr wedi eu hyfforddi ochr yn ochr ag Actorion Hijinx. Bydd pob sesiwn yn cael ei dylunio ar gyfer hyd at 12 o gyfranogwyr, weithiau o'r un sefydliad ac adran, weithiau yn gymysgedd o rai gwahanol, gan gynnwys gweithwyr sgrin proffesiynol llawrydd.

Bydd y sesiynau'n digwydd ar adegau amrywiol trwy gydol y flwyddyn, gan ddechrau yng ngwanwyn 2023. Felly bydd amserlen gyfnodol, hyblyg yn ei lle ar gyfer hwyluswyr llawrydd.

## ***Disgrifiad swydd:***

Swydd i bobl lawrydd, hunangyflogedig yw hon.

Ar ôl cael eich hyfforddi ar gyfer yr arddull hwn o hwyluso, byddwch yn helpu i siapio'r sefyllfaoedd chwarae rhan a/neu sesiynau theatr fforwm yn ystod ymarferion. Bydd hon yn broses gydweithredol, gan weithio gyda Phennaeth Ffilm Hijinx, Cydlynydd ReFocus, Actorion Hijinx ac actorion nad ydynt yn rhan o Hijinx.

Ar ôl i'r hyfforddiant a'r ymarferion gael eu cwblhau, byddwch yn arwain y sesiynau hyfforddi ReFocus, gan greu man croesawus ac agored i'r client a'r rhai sy'n cymryd rhan yn y gweithdai ar y diwrnod, ac yn annog cyfranogiad a dysgu.

Ar ôl pob diwrnod o hyfforddiant, disgwylir i chi roi adborth i Bennaeth Ffilm Hijinx a Chydlynydd ReFocus, gan rannu unrhyw ymatebion gan y client, llwyddiannau neu broblemau a wynebwyd ac unrhyw wersi a ddysgwyd o'r sesiwn. Mae hwn yn gam pwysig wrth i ni gyflwyno'r hyfforddiant.

Chi fydd wyneb cyhoeddus Hijinx yn y sesiynau hyfforddi cleientiaid, gan gynnal proffesiynoldeb ac agweddau Hijinx, a goruchwylio diogelwch a gofal am yr Actorion Hijinx ar ddyddiau hyfforddi.

***Am bwy yr ydym yn chwilio?***

- Cyfathrebwr a gwestai gwych, sy'n hyderus wrth gysylltu gyda chleientiaid a chreu mannau dysgu agored a chefnogol.
- Rhywun sy'n dangos sensitifrwydd a pharch at eraill.
- Unigolyn cyfrifol a dibynadwy a all gynrychioli Hijinx yn broffesiynol.
- Dysgwr angerddol sydd bob amser yn ymdrechu i chwilio am syniadau / dulliau newydd.
- Chwaraewr tîm rhagorol, gydag agwedd hyblyg at arferion gwaith.
- Y gallu i weithio'n greadigol a chydweithredol i ymdrin â heriau.

| Sgiliau Hanfodol | Sgiliau Dymunol |
|---|---|
| • Gwesteiwr hyderus.<br>• Cyfathrebwr effeithiol.<br>• Profiad a gwybodaeth am y diwydiannau teledu/ffilm proffesiynol.<br>• Wedi ymrwymo i gynhwysiant a hygyrchedd.<br>• Trefnus, dibynadwy a hyblyg.<br>• Naill ai profiad o gyflwyno hyfforddiant sgiliau cyfathrebu mewn unrhyw sector lle mae chwarae rhan yn rhan ohono NEU brofiad fel actor sy'n chwarae rhan mewn hyfforddiant corfforaethol. | • Siaradwr Cymraeg (er y bydd y rhan fwyaf o'r sesiynau'n cael eu cynnal yn Saesneg).<br>• Gwybodaeth am ddarpariaethau hyfforddiant a datblygu<br>• Profiad o weithio yn gynhwysol, gyda phobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth o ddewis.<br>• Gwybodaeth am y sector celfyddydau cynhwysol ac anabledd yng Nghymru a/neu tu hwnt. |

***CYFRADDAU***

Os byddwch chi yn dod i weithio gyda ni ar ReFocus, bydd angen i chi fod yn rhan o ddiwrnod o hyfforddiant â thâl (£200). Bydd cyflwyno sesiynau hyfforddi fel hwylusydd yn cael eu talu ar gyfradd y dydd o £250 (hanner diwrnod yn £150).

Bydd unrhyw dreuliau teithio, llety neu gynhaliaeth hefyd yn cael eu talu; bydd tâl am ymarferion ac ymarferion diweddaru (£200/£125 y dydd/hanner diwrnod); bydd unrhyw ddyddiau/hanner dyddiau o deithio hefyd yn cael eu talu ar gyfraddau addas.

Bydd angen i unrhyw un sy'n gweithio gyda ni ar y prosiect hwn fynd trwy wiriad *DBS trylwyr* a gwiriad *Hawl i Weithio*. Swydd i bobl lawrydd, hunan-gyflogedig yw hon.

***AMSERLEN***

Y dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb i hwyluswyr llawrydd yw ***Dydd Sul 23 Ebrill 2023 (Hanner nos).*** Byddwn yn cysylltu â'r rhai y byddwn ni'n teimlo eu bod fwyaf addas ar gyfer y cyfle hwn ar ddydd Mercher 26 Ebrill a byddant yn cael eu gwahodd i gyfarfod anffurfiol gyda ni ar ddydd Mawrth 2 neu ddydd Mercher 3 Mai.

***Byddwn yn cynnal un diwrnod llawn o hyfforddiant i Hwyluswyr ar 9 Mai.***

Bydd yr ymarferion perthnasol ar gyfer sesiynau a sesiynau ReFocus yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd o'r dyddiad hwn ymlaen.

***Anfonwch bob mynegiant o ddiddordeb at:*** ***zade.campbell-davies@hijinx.org.uk***